



**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL**  
**RHONDDA CYNON TAF**  
**COUNTY BOROUGH COUNCIL**

Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn Council Chamber, The Pavilions, Cambrian Park, Clydach Vale, Tonypany, CF40 2XX  
Dydd Iau, 15fed Chwefror, 2018 am 10.30 am

Dolen gyswllt: Emma Wilkins - Executive & Regulatory Business Unit (Rhif ffôn. 01443 424110)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Mawrth, 13 Chwefror 2018. Mae hawl gan Gynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd i annerch yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, anfonwch e-bost i [servicedirector.cabinetandpr@rctcbc.gov.uk](mailto:servicedirector.cabinetandpr@rctcbc.gov.uk).

**MATERION I'W TRAFOD**

**1. DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.

**Noder:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2. COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 25 Ionawr 2018 yn rhai cywir.

(Tudalennau 5 -  
12)

**3. CYNLLUN LLESIANT CWM TAF**

Derbyn adroddiad gan y Prif Weithredwr gan gyflwyno Cynllun Llesiant Cwm Taf Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf yn unol â gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

(Tudalennau 13 -  
64)

**4. DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT:  
CYNLLUN RHANBARTHOL CWM TAF 2018-23 (DRAFFT)**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n rhoi gwybod i Gynghorwyr ynglŷn â'r cynnydd o ran paratoi Cynllun Rhanbarthol Cwm Taf 2018-23 yn ymateb i Asesiad Poblogaeth 2017 ac i'w gyflwyno i'r Cabinet ar gyfer trafodaeth a chymeradwyaeth.

(Tudalennau 65 -  
174)

**5. CYNLLUN GWEITHLU CYNGOR RHONDDA CYNON TAF 2017–2022**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol gan gyflwyno copi o Gynllun Gweithlu Rhondda Cynon Taf 2017-2022.

(Tudalennau 175 -  
208)

**6. CYNYDDU CYFLAWNIAD AILGYLCHU – DEILLIANNAU CYN Y CAM  
CRAFFU**

Derbyn adroddiad Ysgrifennydd i'r Cabinet sy'n rhoi gwybodaeth i Gynghorwyr am ddeilliannau adroddiad cyn y cam craffu ar gyfer Cynyddu Cyflawniad Ailgyrchu a chais i gymeradwyo argymhellion yr adroddiad.

(Tudalennau 209 -  
224)

**7. CYNNIG SEFYDLU YSGOL 3–19 OED AR SAFLE GARTH OLWG**

Derbyn adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes, sy'n egluro canlyniadau'r ymgynghoriad diweddar parthed sefydlu ysgol 'pob oed' 3-19 oed ar Gampws Dysgu Gydol Oes Garth Olwg, Pentre'r Eglwys.

(Tudalennau 225 -  
294)

**8. POLISI FFIOEDD A CHODI TÂL 2018/19 Y CYNGOR**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n nodi'r adolygiadau arfaethedig i ffioedd a thaliadau'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol, 2018/19 (gan weithredu o 1 Ebrill 2018 neu cyn gynted ag y bo'n ymarferol wedi hynny).

(Tudalennau 295 -  
304)

**9. RHAGLEN GYFALAF Y CYNGOR 2018/19 – 2020/21**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n cynnig rhaglen cyfalaf 3 blynedd ar gyfer for 2018/19–2020/21.

**(Tudalennau 305 -  
326)**

**10. CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR AR GYFER 2018/19**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n rhoi gwybod i Aelodau am Setliad Llywodraeth Leol 2018/19, canlyniad y broses ymgynghori ar y gyllideb gyffredinol a'r gweithgarwch cyn y cam craffu gan y Pwyllgor Craffu Materion Cyllid a Chyflawniad, yn gymorth i drafodaethau'r Cabinet cyn paratoi'r strategaeth ar gyfer y gyllideb referniw ar gyfer y flwyddyn ariannol hyd at 31 Mawrth 2018, a gaiff ei chyflwyno i'r Cyngor ar gyfer ei chymeradwyo.

**(Tudalennau 327 -  
446)**

**11. MATERION BRYD**

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



**Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet**

**Cylchrediad:-**

**Y Cynghorwyr:** Y Cynghorydd A Morgan (Cadeirydd)  
Y Cynghorydd M Webber (Is-gadeirydd)  
Y Cynghorydd R Bevan  
Y Cynghorydd A Crimmings  
Y Cynghorydd G Hopkins  
Y Cynghorydd M Norris  
Y Cynghorydd J Rosser  
Y Cynghorydd R Lewis  
Y Cynghorydd C Leyshon

**Swyddogion:** Chris Bradshaw, Prif Weithredwr  
Chris Jones, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol  
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus  
Chris Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen  
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant  
Colin Atyeo, Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor a Chaffael  
Esther Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes  
Jane Cook, Cyfarwyddwr Materion Adfywio a Chynllunio  
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd  
Paul Mee, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned.  
Richard Evans, Pennaeth Materion Adnoddau Dynol